# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 28 Mawrth 2017

Amser: 09.09 - 10.53

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4271

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Mike Hedges AC<br>Neil McEvoy AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Mark Reckless AC (yn lle Neil Hamilton AC)<br>Lee Waters AC |
| Tystion: | Dr Emyr Roberts, Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Kevin Ingram, Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Swyddfa Archwilio Cymru: | Huw Vaughan Thomas - Archwilydd Cyffredinol Cymru<br>Derwyn Owen<br>David Rees |
| Staff y Pwyllgor: | Huw Vaughan Thomas<br>Derwyn Owen<br>David Rees<br>Fay Bowen (Clerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc) |

| | |
|---|---|
| | Katie Wyatt (Cynghorydd Cyfreithiol) |

**Trawsgrifiad**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod (PDF 999KB) Gweld fel HTML (999KB)

## 1 Cyfoeth Naturiol Cymru: Sesiwn friffio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru

1.1 Cafodd y Pwyllgor wybodaeth gan Gyfoeth Naturiol Cymru ac fe drafodwyd materion cyfrinachol cyfredol.

## 2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

2.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.
2.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Neil Hamilton AC. Dirprwyodd Mark Reckless AC ar ei ran.
2.3 Datganodd Mark Reckless AC fuddiant fel Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig.

## 3 Cyfoeth Naturiol Cymru: Craffu ar Gyfrifon Blynyddol 2015-16

3.1 Craffodd y Pwyllgor ar waith Dr Emyr Roberts, y Prif Weithredwr, a Kevin Ingram, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Cyllid a Chorfforaethol Cyfoeth Naturiol Cymru o ran Cyfrifon Cyfoeth Naturiol Blynyddol Cymru 2015-16.
3.2 Cytunodd Dr Roberts i:

- Roi eglurhad am yr amrywiad yn y pris a dalwyd am goed yng Nghymru, ynghyd â phrisiau cyfredol y farchnad
- Darparu cost y cyngor cyfreithiol mewn perthynas ag adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol
- Paratoi nodyn ar yr arfer da a fabwysiadwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer rheoli salwch staff

3.3 Yn ogystal, nododd y Pwyllgor ei fod am gael gweld yr adroddiad sydd ar ddod gan Reolwr Archwilio Mewnol a Sicrwydd Risg Cyfoeth Naturiol Cymru ar yr adolygiad o risgiau rheoli ynghyd â chopi o'r achos busnes a baratowyd ar gyfer y contract i ymateb i ledaeniad y clefyd coed *P. ramorum*.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Cyfoeth Naturiol Cymru: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

5.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a ddaeth i law.